

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom
Nos Lun 26ain Gorffennaf, 2021 am 7.30 y.h.
Minutes of Trawsgoed Community Council held virtually via Zoom on
Monday 26th July, 2021 at 7.30 p.m.

Presennol/Present: Cyng./Cllr. P. Bonner. (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. H.M. Evans,
Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cyng./Cllr. L. Owen

Ymddiheuriadau / Apologies: Cyng./Cllr. J. George, Cyng./Cllr. E. Lewis.
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies

- | | |
|---|---|
| 59. Datgelu Buddiannau Personol
Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau. | Disclosure of Personal Interest
Members were reminded to declare an interest when discussing items. |
| 60. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 28ain Mehefin, 2021. Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. P. Davies. | Minutes of the Last Meeting
The minutes of the last meeting, 28th June, 2021, were confirmed and accepted. Proposed by Cllr. C. Lloyd-Morgan and seconded by Cllr. P. Davies. |
| 61. Asesiad Risg ac Asedau
Nid oedd materion yn codi. | Risk and Asset Assessment
There were no matters arising. |
| 62. Materion yn codi o'r Cofnodion | Matters arising from the Minutes |
| 63. Coed angen torri nol ger Cwmseiri: adroddir nad yw'r coed dan sylw o fewn canllawiau rhwystr peryglus ac felly dim angen eu torri; tynnir o'r agenda. | Trees need cutting back near Cwmseiri: understood that the trees in question do not meet criteria for requirement to cut back; item taken from agenda. |
| 64. Llinellau gwyn angen ail-baentio ar y ffordd, mater o frys ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn a Cnwch Coch: yr Aelod Lleol wedi dilyn Ian gyda Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a'r mater ar restr blaenoriaethau'r Cyngor Sir. Angen ail-baentio yn ardal Llanafan hefyd. | White lines on the roads need painting, urgently required at Llanfihangel-y-Creuddyn and Cnwch Coch. Local Member contacted Officers of Ceredigion County Council and mater on the County Council's priority list. Need re-painting in Llanafan area as well. |
| 65. Sefyllfa Dwr yn cronni ar ffordd ger y Gors yn parhau, cadw ar agenda. | Flooding on the road near New Cross is continuing, keep on the agenda. |
| 66. Nifer o dyllau ar y ffordd o amgylch y Bont ger Dolawel, Llanfihangel-y-Creuddyn, tyllau wedi eu llenwi. | Several potholes on the road around the Bridge near Dolawel, Llanfihangel-y-Creuddyn, pot holes have been filled. |
| 67. Gwter ar y ffordd canlynol wedi gorlenwi: ben y Rhiw Cnwch Coch; ar y ffordd o Gnwch Coch i Gapel Cynon; Penffordd, y Gors i Lanfihangel-y-Creuddyn gwter wedi | Overflowing gutters on the following roads: top of the hill out of the village of Cnwch Coch and along the road towards Capel Cynon; from Penffordd, New Cross towards Llanfihangel-y-Creuddyn the |

gorlenwi gyda drysni a'r dwr yn gorlifo ar y ffordd – cadw ar yr agenda.

overgrown grass has caused water to seep on the road – keep on the agenda.

68. Banc y Nant Nantyrhaidd wedi gordyfu o Adeilad Sefydliad y Merched i lawr at Awel-y-Bryn ac angen torri'r drysni 'nol. Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn archwilio a gwelir nad oedd y gordyfiant yn peri rhwystr i lif yr afon ar hyn o bryd ond y byddant yn adolygu'r sefyllfa yn yr Hydref.
69. Er y gwnaed cais am i'r glanhawr ffordd i deithio ar y ffordd i fyny at Gapel Carmel, Cnwch Coch a hefyd y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan tuag at y B4340 nid oes cadarnhad bod hyn yn digwydd eto.
70. Angen cadw llygad ar y drain ddŵr sydd wedi gorlenwi gyferbyn â Chapel Llanafan
71. Y ffyrdd canlynol angen sylw brys ar yr arwynebedd:
72. Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant; ffordd heibio Ysgol Lanfihangel-y-Creuddyn; y ffordd o'r hen Ysgol Llanafan a heibio Maes Chwarae Maes y Felin;
73. Arwynebedd y ffordd rhwng Lanfihangel-y-Creuddyn tuag at y A4120 wedi derbyn sylw i lenwi'r tyllau oedd yn peri gofid.
74. Y ffordd B4340 yn rhoi wrth Royal Oak Llanafan, y Cyngor Sir yn ymwybodol. Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion bod yn ymwybodol o'r sefyllfa a bod y mater ar restr blaenoriaethau'r Cyngor Sir ond gan fod adnoddau'n brin ni feddir amserlennu'r gwaith ar hyn o bryd
75. Y Cyngor Sir wedi adnewyddu slatiau pren oedd angen sylw ar y bont fach ar y llwybr wrth ymyl Ysgol Lanfihangel-y-Creuddyn a'r Tir Comin
76. Gŵyl Fire in the Mountain gyda'r bwriad i gynnal ddau ddigwyddiad ar safle'r Wyl ym
- The bank has overgrown at Nantyrhaidd brook from the WI building down towards Awel-y-Bryn and needs cutting back. Officers of Ceredigion County Council have inspected location and seen that the overgrowth is not impairing on the flow of the water at present but will monitor situation in the Autumn.
- No response for the request of the road sweeper to sweep the road up to Capel Carmel, Cnwch Coch as well as on the on road from the Old School, Llanafan towards the B4340
- Need to monitor the blocked water drain opposite the Chapel at Llanafan.
- The following road surfaces need urgent attention:
leading from Lanfihangel-y-Creuddyn towards Trisant; the road passing the School at Lanfihangel-y-Creuddyn; road leading from the old School Llanafan towards Maes y Felin Playing Fields.
- Road surface from Lanfihangel-y-Creuddyn towards the A4120 has received attention with the potholes having been filled in along route.
- Subsidence on the B4340 road at Royal Oak Llanafan, County Council aware. Response from Ceredigion County Council noting aware of situation and work on the prioritisation list of the Council but due to lack of resources there is no timeline for such work at present.
- The County Council has replaced the wooden slats that needed attention on the small bridge on the path adjacent to Lanfihangel-y-Creuddyn School and the Common Land.
- Fire in the Mountain Festival with the intention of holding two events during August. Contact was made with the County Council of the concerns that the

mis Awst. Cysylltwyd gyda'r Cyngor Sir yn datgan pryder bod y digwyddiadau'n digwydd a derbyniwyd ymateb o'r Adran Drwyddedu bod y trefnwyr wedi cael caniatâd i gynnal y digwyddiadau ond y byddid yn dilyn canllawiau Covid y bodolir ar y pryd.

77. Bont Siglo. Swyddogion y Cyngor Sir wedi adnewyddu'r weiren llaw oedd wedi torri ar y bont a hefyd yn cadw llygad ar y twll a adawyd gan goeden wedi cwmpo, a'r slatiau pren ar ochr y llwybr a arweinir tuag at y bont.

78. Llwybr Bont-Fach: Swyddogion Cyngor Sir yn ymwybodol bod angen sylw ar y slatiau pren ochr y llwybr tuag at bont 'Bont-Fach'.

79. Slatiau pren wedi cwmpo wrth yr afon gyferbyn a'r Ficerdy yn Llanfihangel-y-Creuddyn wedi dwyn i sylw'r Cyngor Sir.

Materion Cyllidol

80. Derbyniwyd nodyn o ddiolch wrth Cnwch Coch Community Fund am y rodd ariannol tuag at gost y sedd ar gyfer pentref Cnwch Coch.

81. Cyflwynodd y Clerc Fantolen o gyfrifon y Cyngor Bro gyda £4,433.95 ar gael yn y cyfrifon ar 30/6/2021

Cyfrifon 2020/2021

82. Cadarnhaodd y Clerc y danfonwyd cyfrifon 2020/2021 at yr Archwilydd Allanol.

Gohebiaeth

83. Gwybodaeth diweddaraf Cymorth Cynllunio Cymru.

84. Ymholiad gan Un Llais Cymru am arfer dda/ mentrau gan Gynghorau Cymuned a Thref ar fater sbwriel a baw cŵn.

Events were able to be held. Response received from Ceredigion County Council's Licencing Department noting that permission had been granted for the events and that the organisers would be following the current Covid Guidelines at the time.

Bont Siglo, Llanafan. Officers of the County Council have replaced the hand wire on the bridge and will be monitoring the situation of the landslide due to fallen tree as well as the wooden poles leading down toward the bridge.

Path to Bont-Fach, Llanafan: Officers of Ceredigion are aware of maintenance work needed on the wooden poles to the 'Bont-Fach' bridge that need attention.

Broken wooden poles near the river on the roadside opposite The Vicarage at Llanfihangel-y-Creuddyn reported to Ceredigion County Council.

Finance

Letter of appreciation received from Cnwch Coch Community Fund for the donation towards the cost of a bench for the village of Cnwch Coch.

The Clerk presented a balance sheet of the Community Council Accounts with £4,433.95 available in the bank as at 30/6/2021

2020/2021 Accounts

The Clerk confirmed that the 2020/2021 Accounts had been forwarded to the External Auditor.

Correspondence

Latest information on Planning Aid Wales.

Enquiry from One Voice Wales seeking examples of good practice/initiatives from Community and Town Councils in relation to litter and dog fouling.

- | | |
|--|---|
| <p>85. Sesiwn Wybodaeth Cyfleusterau Cymunedol Ceredigion 04.08.2021 - diweddariad ar reoliadau Coronafeirws a sut mae trefnu digwyddiadau a gweithgareddau'n ddiogel.</p> | <p>Ceredigion Community Facilities Information Session 04.08.2021 - an update on Coronavirus regulations and how do we arrange events and activities safely.</p> |
| <p>86. Cais Cynllunio:
Dim i'w cyflwyno.</p> | <p>Planning Application
None presented.</p> |
| <p>87. Unrhyw Fater Arall
Adroddwyd bod arogl carthffosiaeth wedi dychwelyd i bentref Llanfihangel-y-Creuddyn. Y Clerc i gysylltu gyda Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion i dynnu sylw.</p> | <p>Any Other Business
It was reported that the smell of sewerage had returned to the village of Llanfihangel-y-Creuddyn. The Clerk to report to Officers of Ceredigion County Council.</p> |
| <p>88. Cyfeiriwyd fod meinciau eistedd ar y Tir Comin yn Llanfihangel-y-Creuddyn angen sylw. Cyswllt i'w wneud gyda Phwyllgor Cymdeithas Llanfihangel-y-Creuddyn sy'n gyfrifol am y meinciau.</p> | <p>Reference was made to Seating benches needing attention placed on the Common Land at Llanfihangel-y-Creuddyn. Contact to be made with Cymdeithas Llanfihangel-y-Creuddyn Committee who has responsibility for the benches.</p> |
| <p>89. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Nos Lun 6ed Medi, 2021 am 7.30 y.h.</p> | <p>DATE OF NEXT MEETING
Monday 6th September, 2021 7.30 p.m.</p> |